

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gwneud i systemau gronynnau, cyrff anhyblyg, deunyddiau, hylifau a thyrfaoedd symud gyda grymoedd ffiseg. Gallai hyn gynnwys creu darluniau a gynhyrchir gan gyfrifiadur (CG) o ffenomenau corfforol neu hudolus naturiol megis tân, dŵr, cymylau, mwg a dinistr corfforol.

Mae hyn yn ymwneud â phennu'r datrysiadau dylunio amrywiol sydd eu hangen i greu'r effeithiau, dylunio a chreu effeithiau a chynhyrchu cyfansoddion adolygadwy o agweddau Effeithiau Arbennig ar gyfer saethiad. Caiff ei gyfeirio ato'n aml fel Animeiddio Gweithdrefnol neu Animeiddio Effeithiau Gweledol.

Mae'r safon hon yn arbennig ar gyfer artist amgylchedd neu dyrfaoedd neu'r rheiny sydd ynghlwm â datblygu effeithiau neu effeithiau tyrfaoedd.

Gallai'r safon hon gael ei defnyddio gan Artistiaid Effeithiau Gweledol neu Artistiaid Iau Effeithiau Gweledol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gweithio gan gydymffurfio â'r briff gan ddefnyddio sgiliau dehongli a chreadigrwydd pan fo'u hangen
2. cynllunio'r golygfeydd, setiau, saethiadau a'r gweithrediad sydd ei angen i gyflawni'r effeithiau
3. tynnu llun o neu greu effeithiau yn yr arddull a ddymunir
4. pennu meini prawf ar gyfer sut y bydd pethau'n ymddwyn ac yn ymateb mewn gwahanol sefyllfaoedd a gyda gwahanol ysgogiadau
5. defnyddio sgriptio pan allai wneud eich gwaith yn fwy effeithlon
6. defnyddio meddalwedd i ddatrys problemau yn ôl yr angen
7. addasu gosodiadau nes eu bod yn cyflawni'r effaith a ddymunir
8. optimeiddio gosodiadau i sicrhau effeithlonrwydd
9. dehongli problemau a chanfod datrysiadau i gyflawni'r effaith a ddymunir yn y ffordd orau
10. rhannu gwaith gyda phobl eraill pan fo'n briodol a defnyddio adborth mewn ffordd adeiladol i adolygu effeithiau pan fo'i angen
11. adnabod pryd y bydd newidiadau y gofynnir amdany'n nhw gan bobl eraill yn cael effaith andwyol ar y gyllideb, graddfeydd amser, canlyniad terfynol neu rannau eraill o'r biblinell a chyfathrebu hyn mewn dull priodol
12. gwirio a chadarnhau bod gwaith yn cael ei gyflwyno ar amser a'i fod yn bodloni'r allbynnau gofynnol
13. cadw a chyflwyno gwaith i bobl eraill mewn dull priodol ar gyfer y swydd a'r sefydliad rydych yn gweithio iddi

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. ymddygiad ffenomena corfforol a sut i ddyblygu hyn wrth greu effeithiau
2. arddull creadigol a chysyniad cyffredinol y cynhyrchiad a'r effeithiau ynghlwm ag o
3. sut i drefnu amseriad golygfeydd, saethiadau a gweithrediadau i gyfleu'r ddrama ac adrodd y stori ofynnol
4. nodweddion corfforol a mecaneg systemau gronynnau, strwythurau, deunyddiau, hylifau a thyrfaoedd a sut maen nhw'n ymateb i wahanol ysgogiadau
5. sut i greu ffwr neu wallt a gwneud iddo ymateb i wahanol ysgogiadau
6. sut mae gwahanol agweddau'n cydweithio gyda'i gilydd
7. sut i ysgogi symudiad
8. sut gallai lensys a goleuadau effeithio ar edrychiad
9. sut i roi dealltwriaeth o wrthrychau'r byd go iawn ar waith wrth greu gwrthrychau hudolus
10. sut i ddefnyddio meddalwedd perthnasol
11. sut i lunio cod i sicrhau bod y gwaith yn fwy effeithlon
12. sut i fanteisio i'r eithaf ar ddichonoldeb meddalwedd safon diwydiant i ddatrys problemau
13. ymwybyddiaeth o ddatblygiadau technolegol
14. effeithlonrwydd y defnydd o ddata
15. arferion enwi ffeiliau a rheoli data priodol ar gyfer y sefydliad
16. gwerth ceisio adborth cynnar
17. sut i adnabod effaith ac amseriad eich gwaith ar bobl eraill sydd ar y gweill

SKSVFX7



Creu effeithiau

Datblygwyd gan	ScreenSkills
Fersiwn rhif	3
Dyddiad cymeradwyo	31 Maw 2024
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2027
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynol	Screenskills
RCU gwreiddiol	SKSVFX7
Galwedigaethau perthnasol	Cyfarwyddwr Technegol Effeithiau Gweledol, Artist Effeithiau Gweledol, Artist Iau Effeithiau Gweledol, Cynhyrchydd Effeithiau Gweledol, Goruchwyliwr Effeithiau Gweledol, Goruchwyliwr Cynorthwyol Effeithiau Gweledol, Cyfarwyddwr Technegol Cynorthwyol Effeithiau Gweledol
Cyfres/Set	Effeithiau Gweledol
Geiriau Allweddol	creu; effeithiau; Effeithiau Gweledol; effeithiau gweledol; mwg, cynhyrchir gan gyfrifiadur (CG); amgylcheddau; symudiad; lens; goleuadau; edrychiad;
